# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa LCDP**

**23a Bridgend Road**
**Llanharan**
**Pont-y-clun**
**CF72 9RD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Meithrinfa LCDP

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Prosiect Datblygu Cymunedol Llanharan Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 12 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 10 Mai 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Maent yn teimlo'n ddiogel yng ngofal y staff. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i chwarae a dysgu ac i feithrin eu hannibyniaeth drwy amrywiaeth o brofiadau chwarae a dysgu cyffrous.

Mae'r staff yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn gyfeillgar ac yn darparu gofal diogel a magwrus. Mae'r staff yn cefnogi'r plant gydag amrywiaeth eang o weithgareddau, sy'n hyrwyddo chwilfrydedd, chwarae a dysgu'r plant. Maent yn cadw cofnodion effeithiol o gynnydd y plant.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn ddiogel, yn groesawgar ac yn gyfeillgar i blant. Mae wedi'i drefnu'n dda i ysgogi a chefnogi chwarae a dysgu'r plant. Mae ystod dda o adnoddau dan do ac awyr agored ar gael i hyrwyddo dysgu a datblygiad cyffredinol y plant.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn dda. Ceir gweledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ac mae'r person â chyfrifoldeb yn helpu'r staff i wneud eu gwaith yn dda. Mae'r rhieni yn canmol y gofal a ddarperir gan y staff yn y lleoliad. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff y gwasanaeth gorau ei ddarparu i'r plant sy'n mynychu'r lleoliad.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Gallant ddewis ble i chwarae a beth yr hoffent chwarae ag ef, a chânt ddewis yn rheolaidd a ydynt am gymryd rhan mewn gweithgaredd ai peidio. Maent yn siarad yn hyderus ac mae'r rhai nad ydynt yn gallu cyfathrebu ar lafar eto yn defnyddio arwyddion fel pwyntio i gyfleu eu hanghenion a'u dymuniadau yn llwyddiannus. Er enghraifft, dangosodd plentyn i aelod o'r staff fod angen mwy o baent arno ar gyfer gweithgaredd crefft ac aeth y staff i'w nôl.

Mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus yn y lleoliad gan eu bod yn gyfarwydd â'r amgylchedd a'r arferion. Mae ganddynt gydberthnasau da â'r staff ac maent yn ddigon bodlon mynd atynt am gysur neu gymorth pan fo angen. Mae'r plant yn sgwrsio â'r staff am eu chwarae ac yn gwneud ymdrechion penodol i fod yn eu cwmni. Er enghraifft, gwnaeth y plant wahodd eu gweithiwr allweddol i ymuno â nhw wrth iddynt wisgo eu doliau. Maent yn dechrau gwneud ffrindiau gyda'r plant eraill, sy'n eu helpu i deimlo'n hapus ac i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Gwelsom blentyn yn cynnig helpu plentyn arall i gasglu blociau adeiladu ar gyfer gêm.

Mae'r plant yn mynegi eu hanghenion yn hyderus i'r staff ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd.  Er enghraifft, gwnaeth plentyn ofyn i'r staff am gymorth i ail-lenwi cynhwysydd dŵr yn yr ardal awyr agored. Mae'r plant yn dysgu sut i gydweithredu, rhannu a chymryd eu tro. Gwelsom y plant yn gweithio gyda'i gilydd i gwblhau jig-so, a phlentyn yn dangos i blentyn arall sut i gydbwyso ar drawst. Mae'r plant yn parchu ei gilydd a'r adnoddau, gan eu defnyddio'n briodol a helpu i dacluso pan ofynnir iddynt.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu. Gwelsom y plant yn mwynhau gêm golchi car ddychmygol yn fawr, gan ddefnyddio ceir tegan. Maent yn ymgysylltu â'r gweithgareddau a ddewisir ganddynt am gyfnod priodol o amser ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Mae'r plant yn symud o gwmpas yn rhydd a gallant gael gafael ar yr adnoddau sydd ar gael. Maent yn awyddus i rannu eu cyflawniadau â'r staff. Gwelsom blentyn yn dangos llun roedd wedi'i greu i'r staff yn llawn cyffro. Gallant ymuno mewn gweithgareddau dan arweiniad oedolion neu ddewis eu maes chwarae eu hunain. Er enghraifft, roedd llawer o'r plant yn chwarae gyda'r staff yn yr ardal awyr agored, ond dewisodd un plentyn lyfr oddi ar y silff i'w ddarllen gydag aelod o'r staff.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Cânt eu hannog i agor bagiau a bocsys teganau heb gymorth. Mae'r plant yn golchi ac yn sychu eu dwylo'n annibynnol â goruchwyliaeth. Yn ystod amser bwyd, maent yn gweini eu hunain ac yn arllwys dŵr neu laeth o jygiau â chymorth.

## Gofal a Datblygiad Da

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel, ac maent yn rhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith yn effeithiol. Maent yn dangos dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau diogelu ac o'r camau y mae angen iddynt eu cymryd pe bai ganddynt bryder am blentyn. Mae'r staff yn cwblhau cofnodion perthnasol mewn perthynas â damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cael eu cwblhau'n gyson. Caiff cofrestrau ar gyfer presenoldeb y staff, y plant, ac ymwelwyr â'r lleoliad eu cadw. Mae gwybodaeth am alergeddau unigol yn gyfredol a chaiff ei harddangos yn glir. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd gyda'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel mewn argyfwng. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferion hyn yn cael eu hamseru na'u gwerthuso. Ar y cyfan, mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ac mae ganddynt weithdrefnau effeithiol ar waith i hybu ffordd iach o fyw. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau rheoli heintiau drwy olchi eu dwylo ar ôl newid cewynnau a chyn paratoi bwyd. Maent yn cynnal amgylchedd sy'n hylan, gan olchi'r byrddau, glanhau cwpanau/poteli a brwsio'r lloriau yn rheolaidd. Mae'r byrbrydau a'r prydau sy'n cael eu darparu yn faethlon a gall y plant gael gafael ar ddŵr i'w yfed yn annibynnol ar adegau rheolaidd drwy gydol y dydd.

Mae'r staff yn amyneddgar, yn ofalgar ac yn garedig wrth ryngweithio â'r plant. Maent yn ymdrin ag unrhyw ymddygiad amhriodol yn gyflym ac yn bwyllog i'w atal rhag gwaethygu. Er enghraifft, pan ddechreuodd un plentyn wthio plentyn arall allan o'r ffordd yn ystod gweithgaredd dŵr, gwnaeth aelod o'r staff ymyrryd yn gyflym a symud yr hambwrdd er mwyn gwneud lle i'r plant i gyd. Mae'r staff yn canmol y plant yn briodol er mwyn dathlu eu cyflawniadau, gan helpu iddynt deimlo balchder yn yr hyn y maent yn ei wneud. Maent yn siarad yn barchus â'i gilydd ac yn fodelau rôl da i'r plant. Mae'r staff yn ymuno â'r plant i chwarae pan fydd yn briodol gwneud hynny, ac yn siarad â nhw'n rheolaidd er mwyn ehangu eu dysgu a chynnig profiadau cymdeithasol iddynt. Yn ystod amser byrbryd, gwelsom y staff yn sgwrsio â'r plant am eu hoff ffrwyth.

Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau a chyfleoedd ysgogol i'r plant ddysgu. Maent yn arsylwi ar y plant, felly maent yn ymwybodol o'u diddordebau a'u hanghenion unigol. Mae'r staff yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio ar gyfer camau datblygiad nesaf y plant ac i olrhain eu cynnydd, gan gadw cofnod o'r dyddiad y caiff sgiliau eu cyflawni. Mae'r staff yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn dda. Gwnaethom glywed y staff yn defnyddio geiriau ac ymadroddion syml ac yn canu caneuon Cymraeg â'r plant yn ystod amser cylch a thrwy gydol y dydd.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae gan yr arweinwyr bolisïau cynhwysfawr ar waith ac maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel a'i fod mewn cyflwr da. Mae'r staff yn cwblhau asesiadau risg effeithiol a chywir, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Maent yn cwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol o'r amgylchedd er mwyn nodi unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant, a dileu'r risgiau hynny lle bo modd. Mae'r lleoliad yn lân, yn daclus, ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae arferion glanhau effeithiol ar waith sy'n sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei reoli'n dda o ran atal a rheoli heintiau. Mae'r safle yn ddiogel, ac mae system gadarn ar waith i gofnodi unrhyw ymwelwyr sy'n dod i'r lleoliad. Mae'r gwiriadau rheolaidd y mae angen eu cynnal ar gyfer yr adeilad ac o ran tystysgrifau diogelwch yn gyfredol.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd croesawgar a diddorol i'r plant. Mae byrddau lefel isel ar gael sy'n rhoi cyfleoedd da i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau bwrdd ac sy'n addas ar gyfer amseroedd byrbryd. Y tu mewn, mae dwy ystafell ar wahân ar gael i'r plant eu defnyddio. Mae cyfleoedd ac adnoddau chwarae a dysgu yn un o'r ystafelloedd hyn. Mae'r ystafell arall yn addas ar gyfer amser byrbryd a gweithgareddau chwarae blêr dan arweiniad y staff. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn addas ac yn cynnwys amrywiaeth dda o adnoddau. Mae ardaloedd toiled addas, sy'n cynnwys basnau golchi dwylo â sebon hylif a thywelion papur. Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd i'r plant ddod yn fwy annibynnol a chaiff preifatrwydd ac urddas eu hystyried. Mae digon o labeli ac arddangosiadau o eirfa Cymraeg, gan gynnwys enwau lliwiau a misoedd y flwyddyn ac arddangosfeydd o waith celf y plant sy'n dathlu eu cyflawniadau. Mae cyfleoedd ym mhob rhan o'r lleoliad i'r plant ymarfer sgiliau llythrennedd, ynghyd â dewis eang o lyfrau.

Mae'r arweinwyr yn darparu ystod eang o adnoddau ar gyfer pob oedran a cham datblygu, sy'n cynnig amrywiaeth o ddewis i'r plant. Er enghraifft, drwy chwarae â blociau, chwarae â dŵr, gweithgareddau synhwyraidd, gweithgareddau crefft, a gweithgareddau chwarae rôl. Gall y plant gael gafael ar y teganau a'r adnoddau yn hawdd, gan eu bod yn cael eu storio ar lefel isel neu o fewn eu cyrraedd. Mae'r staff yn sicrhau bod eitemau bywyd go iawn ac eitemau amlddiwylliannol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o gydraddoldeb ac amrywiaeth ddiwylliannol. Maent yn gwirio'r teganau, y cyfarpar a'r adnoddau yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn lân ac mewn cyflwr da.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r arweinwyr yn rheoli ac yn gweithredu'r lleoliad yn effeithiol ac yn ymrwymedig i wneud gwelliannau parhaus. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o'r gofal y maent yn ei ddarparu ac yn cymryd rhan weithredol wrth redeg y lleoliad o ddydd i ddydd. Mae ganddynt weledigaeth gref y maent yn ei rhannu'n effeithiol ag eraill ac yn ei hadolygu'n rheolaidd. Maent yn diweddaru polisïau’r lleoliad ac yn sicrhau bod y staff yn eu rhoi ar waith yn ymarferol. Mae datganiad o ddiben ar waith sy'n rhoi darlun cywir o'r hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae hyn yn galluogi rhieni newydd i wneud penderfyniad hyddysg am ddefnyddio'r lleoliad. Mae trefniadau da ar waith i sicrhau bod diogelu ac amddiffyn plant yn flaenoriaeth i'r lleoliad. Mae'r arweinwyr wedi gweithio mewn ffordd gadarnhaol gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn ystod yr arolygiad hwn.

Mae'r arweinwyr wedi llunio adroddiad effeithiol ar ansawdd y gofal. Maent yn sicrhau y caiff barn a safbwyntiau'r staff, y rhieni, y plant ac asiantaethau allanol eu casglu. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff y safbwyntiau hyn eu rhoi ar waith er mwyn gwella'r lleoliad. Tynnir sylw at hyn yn yr adroddiad. Maent yn creu nodau ar gyfer rhedeg y lleoliad yn y dyfodol ac yn eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae system glir ar waith i sicrhau bod gwiriadau'r staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn gyfredol. Mae ffeiliau'r staff yn gyfredol ac mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgymryd â'r holl wiriadau perthnasol i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf, fel cymorth cyntaf a diogelu ac maent yn cael cyfleoedd da i gael hyfforddiant ychwanegol. Mae'r staff yn frwdfrydig, yn llawn cymhelliant ac yn mwynhau eu gwaith. Gwnaethant ddweud wrthym fod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gefnogol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol, sy'n eu galluogi i nodi eu cryfderau a meysydd i'w datblygu.

Mae'r arweinwyr wedi meithrin cydberthnasau ystyrlon a chadarnhaol â'r rhieni a'r gofalwyr. Mae systemau rhagorol ar waith i roi gwybodaeth i'r rhieni am yr amser y mae eu plentyn yn ei dreulio yn y lleoliad, gan ddefnyddio ap electronig. Dywedodd y rhieni wrthym pa mor gefnogol a pharod eu cymwynas oedd y staff, a chymaint yr oedd eu plant yn mwynhau mynychu. Maent yn eithriadol o hapus â'r ffordd y caiff annibyniaeth eu plant ei meithrin a'i hannog ac yn teimlo bod eu plant yn ffynnu. Mae gan yr arweinwyr gydberthnasau da ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol a'r gymuned. Maent yn gwneud defnydd llawn o'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael ar garreg eu drws i wella dysgu'r plant yn y byd go iawn, fel ymweliadau â'r parc a siopau lleol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau y caiff ffurflenni damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth eu cwblhau'n llawn. |
| Ystyried trefniadau ar gyfer amseru ymarferion tân a gwerthuso eu canlyniadau. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/10/2024